# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

# FEI 19

# Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

# Tystiolaeth gan : Bwrdd Prosiect Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd

## Cyflwyniad

Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn wedi'i wneud ar ran Bwrdd y Prosiect Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd. Cefnogir Prosiect Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru. Mae'r prosiect yn ceisio mynd i'r afael â thlodi drwy ddatblygu, cydlynu a hybu gwasanaethau cynhwysiant ariannol o fewn sefydliadau Bwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy a Sir Ddinbych.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn, cysylltwch â Sarah Lamberton, Rheolwr Prosiect ar gyfer Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd dros e-bost: sarah.lamberton@denbighshire.gov.uk neu ffoniwch 01824 712373.

## Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad

**1. A oes angen am Fesur at y dibenion hyn? Eglurwch eich ateb.**

1.1 Oes. Byddai Bwrdd Prosiect FIT yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno mesur newydd ar gyfer y dibenion a amlinellwyd. Byddai Mesur o'r fath yn datblygu mesurau ataliol yn lleol a fyddai'n galluogi dinasyddion i fod yn fwy gwydn yn ariannol. Bydd dinasyddion yn fwy tebygol o ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth hanfodol sydd eu hangen i reoli eu harian yn well, cynllunio ar gyfer y dyfodol a chael mynediad at wybodaeth, cymorth a chyngor o ansawdd.

1.2 Bydd yn helpu i fynd i'r afael â'r materion canlynol yng Nghonwy a Sir Ddinbych:

- Cynyddu lefelau dyled. Yn 2012, gwelodd Canolfan Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych gynnydd o 26% o'r flwyddyn flaenorol o ran helpu pobl â phroblemau dyled.[1]
- Amrywio sgiliau llythrennedd ariannol ar draws y boblogaeth
- Cynyddu ffigurau tlodi yn y gwaith
- Y rhai sy'n cael budd-daliadau a chredydau gwaith/allan o waith neu sydd â'r hawl i'w cael

**2. Ydych chi'n meddwl bod y Mesur, fel y'i drafftiwyd, yn cyflawni'r amcanion a nodwyd fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol? Eglurwch eich ateb.**

2.1 Mae Bwrdd y Prosiect yn croesawu y bydd y Mesur yn darparu ar gyfer Awdurdodau Lleol i ddatblygu strategaeth fel rhan o'i flaenoriaethau strategol ehangach ac na fydd yn rhaid cynhyrchu un strategaeth annibynnol.

2.2 Mae'r Bwrdd yn cefnogi adran 8(4) o'r Mesur (Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad ym mhob blwyddyn ariannol gan nodi sut y mae'n gweithredu ei strategaeth cynhwysiant ariannol yn y flwyddyn ariannol flaenorol), fodd bynnag byddai'n cynghori yn unol ag adran 10(1) o'r Mesur (y gall Gweinidogion gyhoeddi canllawiau i Awdurdodau Lleol ynghylch strategaethau cynhwysiant ariannol), bod agweddau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael eu cymryd gyda hyblygrwydd er mwyn i awdurdodau lleol bennu mesurau/targedau perfformiad yn seiliedig ar anghenion ac amgylchiadau lleol.

[1] Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych *'Hafan ddiogel mewn storm ariannol – Arolwg dyledion 2012'*

3. **A yw adrannau'r Mesur fel y'i drafftiwyd yn briodol at y dibenion a ddisgrifir uchod? Os na, pa newidiadau sydd angen eu gwneud i'r Mesur?**

3.1 Mae'r Bwrdd yn croesawu adran 8(2): bod yn rhaid i awdurdod lleol ymgynghori ag unigolion fel sy'n briodol (gan gynnwys sefydliadau sy'n ymddangos eu bod yn bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddiannau i gymdeithas neu i'r amgylchedd (sefydliadau "trydydd sector")).
3.2 Mae'r Bwrdd yn croesawu adran 9(1)(e) o'r mesur: wrth ddatblygu strategaethau, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydweithio â sefydliadau yn yr ardal sy'n hybu cynhwysiant ariannol.
3.3 Fodd bynnag, byddai hefyd yn argymell yn y ddwy adran ei bod yn rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â rhwydweithiau lleol perthnasol hefyd. Er enghraifft, Rhwydwaith Cyngor Sir Ddinbych yn Sir Ddinbych, a Grŵp Cynhwysiant Ariannol Conwy yng Nghonwy. Mae'r rhwydweithiau hyn yn chwarae rôl ganolog i sicrhau gwasanaethau cynhwysiant ariannol effeithiol ar draws y ddwy sir.
3.4 Mae'r Bwrdd yn argymell bod y Mesur yn darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol ar effaith y Mesur Addysg a Chynhwysiant Ariannol yn erbyn deddfwriaeth wrthdlodi, cynlluniau, mesurau perfformiad a dangosyddion er mwyn sicrhau y caiff cysylltiad uniongyrchol ei wneud rhwng y meysydd deddfwriaeth.

7. **Beth yw eich barn am y pwerau yn y Mesur i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (h.y. offerynnau statudol, gan gynnwys rheoliadau, gorchmynion a chyfarwyddiadau)?**

7.1 Mae dull o'r fath yn cael ei groesawu gan y bwrdd, ac mae'n bwysig bod awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth o'r fath. Byddai'r Bwrdd yn argymell, fodd bynnag, y caiff gwaith sydd eisoes wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru ar yr Adolygiad o Wasanaethau Cynghori yn 2013 a Fframwaith Gwasanaeth Cymorth Lleol dilynol, ei ystyried wrth ddatblygu unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath.

8. **Sylwadau eraill**

8.1 Wrth ddatblygu'r Mesur ac unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol, mae'r Bwrdd yn argymell bod Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd Cymru yn cael ei ystyried, o ystyried y cysylltiadau uniongyrchol a gaiff eu gwneud i wella addysg a llythrennedd ariannol.

8.2 Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, byddai cyflwyno Mesur Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) yn cael effaith ariannol sylweddol ar y ddau awdurdod lleol a sefydliadau partner perthnasol. Nid yw'n glir yn y Memorandwm Esboniadol sut y byddai'r costau hyn yn cael eu bodloni. Erbyn hyn, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru (a nifer o sefydliadau partner) ymdopi ar gyllidebau llai a thoriadau rhagweladwy pellach yn y dyfodol. Mae Bwrdd Prosiect FIT yn argymell y byddai cyflwyno mesur arfaethedig o'r fath gofyn am gynnwys ffrydiau ariannu pwrpasol er mwyn rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith yn effeithiol, heb gael effaith negyddol ar ddarpariaeth gwasanaethau lleol.

8.3 Mae prosiect FIT bellach wedi darparu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o Gynhwysiant Ariannol i dros 800 o staff y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Mae data perfformiad a gafwyd gan y prosiect wedi dangos y canlynol:

- Mae 79% o weithwyr yn nodi bod ganddynt fwy o wybodaeth, hyder a gallu i ganfod cynhwysiant ariannol
- Mae 76% o weithwyr yn dweud bod ganddynt fwy o hyder i wneud cyfeiriadau
- Mae 73% o weithwyr yn credu y byddan nhw/ eu teulu'n cael eu cynnwys fwy yn ariannol ar ôl bod yn y sesiwn

8.4 O ystyried ystadegau diweddar sy'n dangos bod tlodi mewn gwaith yn cynyddu, a nifer y dinasyddion a gyflogir drwy sefydliadau'r sector cyhoeddus, gellir cael budd gwirioneddol o gefnogi staff i ddeall cynhwysiant ariannol a gwasanaethau perthnasol sydd ar gael. Nid yn unig y gallant

gymhwyso'r hyn maent yn ei ddysgu i'w teulu a'u ffrindiau, ond gallant hefyd gefnogi'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw.

8.5 Er mwyn cyflawni gofynion y Mesur newydd, bydd angen i fwy o staff a rheolwyr rheng flaen ddeall cynhwysiant ariannol a meddu ar wybodaeth am y gwasanaethau a'r cymorth perthnasol sydd ar gael yn lleol. Mae'r Bwrdd yn argymell y caiff Gwerthusiad Prosiect FIT ei ystyried ochr yn ochr â datblygu unrhyw ganllawiau deddfwriaethol yn ymwneud â'r Mesur, a mabwysiadu'r arfer gorau lle y bo'n ymarferol. Fel rhan o Etifeddiaeth Prosiect FIT, mae modiwl e-ddysgu ar Gynhwysiant Ariannol a Mynd i'r Afael â Thlodi yn cael ei lansio a fydd yn helpu i wella ymwybyddiaeth o gynhwysiant ariannol ymhlith gweithwyr rheng flaen. Gellid uwchraddio hyn er mwyn i bartneriaid ar draws Cymru gael mynediad ato fel adnodd dysgu effeithiol.